# Canllawiau Sgiliau Iaith Gymraeg

| | Gwrando/Siarad | Deall/Darllen | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|
| **Lefel 0** | • Dim sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd. | • Dim sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd. | • Dim sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd. |
| **Lefel 1 – Mynediad (Cwrteisi)** | Gallaf:<br>• Ynganu geiriau, enwau lleoedd, enwau adrannau Cymraeg cyfarwydd a.y.b.<br>• Cyfarch a deall cyfarchiad.<br>• Defnyddio geiriau ac ymadroddion cyffredin, sylfaenol, e.e. os gwelwch yn dda, diolch, esgusodwch fi, a.y.b. | Gallaf:<br>• Deall geiriau allweddol a brawddegau syml am faterion cyfarwydd/y mae modd eu rhagweld sy'n ymwneud â maes fy swydd i e.e. ar arwyddion, mewn llythyrau. | Gallaf:<br>• Lenwi ffurflenni syml, nodi gwybodaeth syml e.e. dyddiad a lleoliad cyfarfod, cyfeiriad Cymraeg etc. |
| **Lefel 2 – Sylfaen** | Gallaf:<br>• Ddilyn hanfod sgyrsiau Cymraeg yn y Gwaith.<br>• Ymateb i geisiadau syml sy'n ymwneud â'm swydd a gwneud cais am wybodaeth ffeithiol.<br>• Gofyn cwestiynau syml a deall atebion syml.<br>• Deall cyfarwyddiadau pan ddefnyddir iaith syml. | Gallaf:<br>• Ddeall gwybodaeth ffeithiol, arferol am faterion cyfarwydd sy'n gysylltiedig â maes fy swydd i e.e. mewn llythyrau safonol, taflenni, etc. | Gallaf:<br>• Ysgrifennu nodiadau/negeseuon byr, syml am amrediad cyfyngedig o bynciau y mae modd eu rhagweld, sy'n gysylltiedig â'm profiadau personol i neu â maes fy swydd i. |
| **Lefel 3 – Canolradd** | Gallaf:<br>• Ddeall llawer o'r hyn a ddywedir mewn swyddfa, cyfarfod a.y.b.<br>• Cynnal sgwrs syml am bwnc sy'n ymwneud â'r gwaith, ond efallai bydd angen troi i'r Saesneg i drafod/rhoi manylion gwaith cymhleth neu dechnegol.<br>• Ateb cwestiynau ffeithiol neu rai y mae modd eu rhagweld.<br>• Cymryd a throsglwyddo'r rhan fwyaf o negeseuon sy'n debygol o fod ag angen sylw.<br>• Mynegi barn mewn modd cyfyngedig, os yw'r pwnc yn gyfarwydd. | Gallaf:<br>• Ddarllen testun yn fras i gael gwybodaeth berthnasol.<br>• Deall amrediad o ohebiaeth a thestun arferol ac anarferol sy'n gysylltiedig â'm swydd a deall hanfod testunau mwy anarferol pan ddefnyddir iaith safonol. | Gallaf:<br>• Ysgrifennu llythyr safonol sy'n ymwneud â maes fy swydd i, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg fwrw golwg drosto.<br>• Gwneud nodiadau tra bydd rhywun yn siarad. |
| **Lefel 4 – Uwch** | Gallaf:<br>• Gynnal sgwrs anffurfiol estynedig sy'n gysylltiedig â'm gwaith, gydag amrediad o fynegiant, ond efallai bydd angen troi i'r Saesneg i ateb cwestiynau nad oes modd eu rhagweld, neu esbonio pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol.<br>• Cyfrannu'n effeithiol i gyfarfodydd a seminarau yn fy maes gwaith i fy hun.<br>• Dadlau o blaid/yn erbyn acho. | Gallaf:<br>• Ddarllen a deall gwybodaeth yn lled gyflym ar yr amod nad yw'n defnyddio geirfa anarferol ac nad yw'n arbennig o gymhleth na thechnegol. | Gallaf:<br>• Baratoi nifer o fathau o lythyrau ffurfiol cyfarwydd, fel ymholiad, cwyn, dymuniad a chais.<br>• Cymryd nodiadau go lew o gywir mewn cyfarfod neu gymryd arddywediad syml.<br>• Ysgrifennu adroddiad/dogfen syml sy'n ymwneud â maes fy swydd i, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg fwrw golwg drosto. |
| **Levfl 5 – Hyfedredd** | Gallaf:<br>• Drafod/cynghori am faterion arferol, anarferol, cymhleth, cynhennus neu sensitif sy'n gysylltiedig â'm profiadau i fy hun.<br>• Rhoi cyflwyniad/arddangosiad.<br>• Delio'n hyderus â chwestiynau gelyniaethus neu rai nad oes modd eu rhagweld.<br>• Trafod gan ddefnyddio termau cymhleth/technego.<br>• Cynnal cyfweliadau ar y cyfryngau. | Gallaf:<br>• Ddeall syniadau a gwybodaeth gymhleth a fynegir mewn iaith gymhleth neu arbenigol mewn dogfennau, adroddiadau, gohebiaeth ac erthyglau etc. | Gallaf:<br>• Ysgrifennu llythyrau am unrhyw bwnc.<br>• Ysgrifennu nodiadau llawn/cywir am gyfarfodydd, gan ddilyn trafodaethau a chymryd rhan ynddyn nhw.<br>• Ysgrifennu adroddiadau/dogfennau yn hyderus, ond efallai bydd angen bwrw golwg dros y rhain i chwilio am fân frychau sillafu a gramadeg. |